# COURSE JOINING INFORMATION

# GWYBODAETH YMUNO Â’R CWRS

## TAR CYNRADD AC UWCHRADD
## Mehefin 2023

## YSGOL ADDYSG A PHOLISI CYMDEITHASOL CAERDYDD

## Blwyddyn Academaidd 2023/2024

Cardiff Met

## C Y N N W Y S

1. [Llythyr Croeso gan y Cyfarwyddwr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a Dysgu Proffesiynol]

[Ffurflen Gwybodaeth Lleoliad (i'w chwblhau erbyn 7 Gorffennaf)]

2. [Llythyr Croeso gan Derbyniadau]

3. [Gwybodaeth Bwysig]

4. [Rhestr Darllen Cyn y Rhaglen]

5. [Neges gan y Tîm Iaith Gymraeg]

### 1. Llythyr Croeso gan y Cyfarwyddwr Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) a Dysgu Proffesiynol

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weithio gyda chi yn y flwyddyn academaidd nesaf. Gallwn gadarnhau y bydd rhaglenni TAR AGA Partneriaeth Caerdydd 2023/24 yn dechrau ar y dyddiad canlynol:

**Dydd Llun 4 Medi 2023**

Mae hwn yn gyfnod hynod gyffrous i ddod yn athro yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, darparwyr Sefydliadau Addysg Uwch (SAU) eraill yng Nghymru a'n hysgolion partner i sicrhau ein bod yn darparu rhaglenni AGA o ansawdd uchel sy'n galluogi athrawon dan hyfforddiant i fodloni'r Safonau Addysgu Cymwysedig (SAC).

**Ffurflenni Lleoliad Ysgol a Hyfedredd yn y Gymraeg**

Er mwyn ein cynorthwyo i drefnu eich lleoliadau ysgol a'ch grŵp Datblygu'r Gymraeg yn y Brifysgol, mae angen i bob myfyriwr gwblhau'r ddwy ffurflen a restrir isod erbyn **dydd Gwener 7 Gorffennaf 2023 fan bellaf**:

- **Llwybr TAR Cynradd**: [Ffurflen Gwybodaeth Lleoliad TAR Cynradd 2023-24]

- **Llwybr TAR Uwchradd:** Ffurflen Gwybodaeth Lleoliad TAR Uwchradd 2023-24

- **Hyfedredd yn y Gymraeg**: Partneriaeth Caerdydd ar gyfer AGA: Ffurflen Hyfedredd yn y Gymraeg 2023-2024 – mae angen i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg lenwi'r Ffurflen Hyfedredd yn y Gymraeg.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais am leoliad gyda darparwr Anghenion Dysgu Ychwanegol cwblhewch y ffurflen ychwanegol isod erbyn dydd Gwener, 21 Gorffennaf 2023:

Ffurflen Gais ADY: Cais am Leoliad Darpariaeth Arbenigol Anghenion Dysgu Ychwanegol 2023 - 2024

Dyma'r cyntaf o ddau becyn gwybodaeth y byddwch yn eu derbyn cyn i'r rhaglen ddechrau. Bydd yr ail becyn ar gael i chi ym mis Awst. Cynhwysir gwybodaeth am y gweithdrefnau hunan-gofrestru ar-lein ym mhecyn mis Awst, ynghyd ag amlinelliad o'r trefniadau ar gyfer wythnos gyntaf y rhaglen.

Fel addysgwr sy'n athro mae gennych chi rôl bwysig i'w chwarae, rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at gwrdd â chi a gweithio gyda chi i ysbrydoli meddyliau Cymru yn y dyfodol.

**Dr Anna Bryant - Cyfarwyddwr AGA a Dysgu Proffesiynol**

## 2. Llythyr Croeso gan Derbyniadau

Annwyl Fyfyriwr

Da iawn a diolch am ddewis astudio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Estynnwn groeso cynnes i chi fel aelod o’r Rhaglen Tystysgrif Addysg i Raddedigion. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn dechrau ar ein rhaglen a'ch croesawu **ddydd Llun 4 Medi 2023**; i ddechrau ar yr hyn a obeithir, i fod yn flwyddyn werth chweil a llwyddiannus i chi fel athro dan hyfforddiant. Rydych ar fin cychwyn ar raglen ôl-raddedig uchel ei pharch ac o ansawdd uchel ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi.

A gaf i achub ar y cyfle cynnar hwn i’ch atgoffa bod y rhaglen yn un amser llawn ac yn ddwys. Asesir rhan prifysgol y Rhaglen ar lefel Gradd Meistr sy’n eich galluogi i ennill 60 Credyd ar lefel M/Lefel 7, sy’n cyfateb i draean o gymhwyster MA. Cyflawnir yr elfen profiad ysgol o'r rhaglen mewn gwahanol ysgolion a gall olygu teithiau hir. Sylwch fod rhai ysgolion yn dechrau mor gynnar ag 8.00am. Eich cyfrifoldeb chi yw gwneud y trefniadau angenrheidiol i ddelio ag unrhyw ymrwymiadau personol, fel y gallwch gyrraedd yr ysgol pan fo angen. Ni all tiwtoriaid warantu lleoliad yn agos at eich cartref. Os caiff anabledd ei ddatgan, bydd addasiadau rhesymol priodol yn cael eu gwneud yn seiliedig ar argymhellion gan Adran Anabledd Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

**Sylwer: Mae hwn yn gwrs Addysg Gychwynnol Athrawon proffesiynol ac ni ddylai athrawon dan hyfforddiant drefnu gwyliau yn ystod y rhaglen.**

Dyma’r cyntaf o ddau becyn gwybodaeth y byddwch yn eu derbyn cyn i’r Rhaglen ddechrau **ddydd Llun 4ydd Medi 2023**. Bydd yr ail becyn ar gael i chi ym mis Awst. Cynhwysir gwybodaeth am y gweithdrefnau hunan-gofrestru ar-lein ym mhecyn mis Awst.

**<u>Bydd pecyn mis Awst yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:</u>**

- Llythyr gan Ddeon Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd
- Cod Ymddygiad a Gwybodaeth Ddefnyddiol Arall
- Rhagor o wybodaeth generig a phwnc-benodol

Edrychwn ymlaen at eich croesawu ar **ddydd Llun 4ydd Medi** ac, yn y cyfamser, mae croeso i chi gysylltu â mi ar 029 2041 6010 os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Yr eiddoch yn gywir



**Ms Lisa Bowen**
**Pennaeth Derbyniadau**

## 3. Gwybodaeth Bwysig

- Mae'n bwysig, os nad ydych, am ba reswm bynnag, yn bwriadu cymryd y lle a gynigir, eich bod yn **hysbysu naill ai'r tiwtor perthnasol neu Derbyniadau erbyn diwedd mis Awst** fel na fydd ymgeiswyr eraill yn cael eu hatal rhag cael lle.

- Bydd angen i chi gysylltu â'r Cyllid Myfyrwyr priodol yn dibynnu ar ble rydych yn byw ynghylch talu'r ffioedd ar gyfer y Rhaglen a'ch Benthyciad Myfyriwr a llenwi'r Ffurflen PN1. Darperir gwybodaeth am Gyllid Myfyrwyr ar ein gwefan yn www.cardiffmet.ac.uk/finance ac rydym yn argymell eich bod yn darllen y wybodaeth hon ac yn gwneud cais am gymorth, os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes. Byddwch yn derbyn cadarnhad o faint o gyfraniad y byddwch yn ei dderbyn tuag at eich ffioedd a bydd y brifysgol hefyd yn derbyn cadarnhad o hyn ar ôl i chi gofrestru.

- Mae angen gwiriadau heddlu boddhaol gan bob ymgeisydd ar gyfer Rhaglenni TAR. Bydd methu â gwneud hyn yn golygu na fydd ymgeiswyr yn gallu cychwyn ar y Rhaglen. Dylech fod wedi derbyn gwybodaeth yn ymwneud â hyn gyda'ch llythyr cynnig gwreiddiol gennym ni. Os nad ydych wedi dilyn y weithdrefn hon, yna cysylltwch â Derbyniadau cyn gynted â phosibl ar 029 2041 6010 neu askadmissions@cardiffmet.ac.uk

- Os yw'r cynnig a gawsoch gan Hyfforddiant Athrawon UCAS yn amodol ar unrhyw gymwysterau academaidd e.e. gradd, a allwch **anfon copi o'ch canlyniadau** pan fyddwch yn eu derbyn fel y gallwn gadarnhau eich lle. Gellir e-bostio'r holl ganlyniadau i newstudent_qualifications@cardiffmet.ac.uk

- Os byddwch yn newid eich cyfeiriad rhwng amser y cais a derbyn lle ar y Rhaglen, rhowch wybod i Hyfforddiant Athrawon UCAS a'r Swyddfa Derbyniadau ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, fel y gellir diweddaru eich cofnodion. Os na chawn wybod am eich cyfeiriad newydd, ni fyddwch yn derbyn gwybodaeth bwysig am y Rhaglen.

- I gael gwybodaeth sy'n disgrifio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am lety (Fflatiau/Fflatiau un ystafell/Neuaddau Preswyl), ewch i'r wefan Llety: www.cardiffmet.ac.uk/accommodation; neu cysylltwch â nhw ar 029 2041 6188.

- Mae angen cofrestru ar gyfer addysgu trwy'r Cyngor Addysgu Cyffredinol priodol, y codir ffi amdano. Os ydych yn bwriadu gweithio yng Nghymru ar ôl i chi gymhwyso, bydd angen i chi lenwi a chyflwyno ffurflen gais a ffi gofrestru drwy Gyngor y Gweithlu Addysg a fydd yn ymweld â'r sefydliad yn ystod eich rhaglen i'ch cynorthwyo gyda'r broses hon.

## 4. Rhestr Darllen Cyn y Rhaglen

Byddai'r Llyfryddiaeth ganlynol yn ddeunydd darllen cefndirol rhagorol, i roi sylfaen gadarn ar gyfer cychwyn y rhaglen:

Capel, S., Leask, M. & Younie, S. (2019) *Learning to Teach in the Secondary School.* 8th edn. Oxon: Routledge.

Cremin, T. and Arthur, J. (2018) *Learning to Teach in the Primary School*. 4th edn. Oxon: Routledge.

Holmes, E. (2018) A Practical Guide to Teacher Wellbeing. London: Sage Publications Limited

Pollard, A., Black-Hawkins, K. and Hodges, G. C. (2018) Reflective Teaching in Schools. 5th edn. London: Bloomsbury Academic.

Rogers, B. (2015) Classroom Behaviour: A Practical Guide to Effective Teaching, Behaviour Management & Colleague Support. 4th edn. London: Sage Publications Limited.

Taber, K. (2013) Classroom Based Research and Evidence Based Practice: An Introduction. 2nd edn. London: Sage Publications Limited.

**GWEFANNAU / PODLEDIADAU DEFNYDDIOL**

- Cwricwlwm i Gymru
  https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales
- Adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yr Athro Graham Donaldson (2015)
  https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/successful-futures.pdf
- Podlediad Emma and Tom Talk Teaching: Cyd-gynhelir gan Emma Thayer, Arweinydd Rhaglen TAR Drama a Tom Breeze, Arweinydd Rhaglen TAR Cerddoriaeth.
  https://podcasts.apple.com/gb/podcast/emma-toms-pgce-podcast/id1428879037

**5. Neges gan y Tîm Iaith Gymraeg**

Cardiff Partnership
for Initial Teacher Education
Partneriaeth Caerdydd
ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon

Annwyl fyfyriwr

Llongyfarchiadau ar sicrhau lle ar Raglen TAR ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Fel tiwtoriaid ar elfen Datblygu'r Gymraeg y Rhaglen rydym yn cynnig cymorth Iaith Gymraeg i chi cyn i'ch hyfforddiant ddechrau. Mae'r llythyr hwn yn rhoi rhai awgrymiadau i chi ymgysylltu â nhw dros y misoedd nesaf pan ddaw'r cyfle.

Peidiwch â phoeni os nad oes gennych unrhyw wybodaeth am y Gymraeg. Rydym yn cefnogi myfyrwyr o ddechreuwyr pur i siaradwyr Cymraeg rhugl. Fodd bynnag, gweler isod rai syniadau i'ch cefnogi cyn i chi gyrraedd gyda ni ym mis Medi. Manteisiwch ar bob cyfle i ddarllen, siarad a/neu wrando ar y Gymraeg yn eich cartref a'ch cymuned. Os nad ydych yn byw yng Nghymru, gwnewch ddefnydd o'r rhyngrwyd ac amrywiol apiau sydd ar gael i'ch cychwyn ar eich taith Gymraeg.

Pob lwc a mwynhewch!

**Dechreuwyr**

- Cofrestrwch ar gyfer Duolingo a dechrau dysgu geiriau ac ymadroddion newydd yn y Gymraeg.
- Ymunwch â chymuned dysgu iaith 'Say Something in Welsh' ar-lein.
- Os ydych yn gweithio mewn ysgol yng Nghymru, byddwch yn ymwybodol o Ddatblygiad y Gymraeg drwy'r ysgol.
- Ceisiwch ddarllen a deall arwyddion Cymraeg yn eich cymuned os ydych yn byw yng Nghymru.
- Chwiliwch am adnoddau i'ch helpu gydag ynganu sylfaenol a mwynhewch ddweud rhai geiriau sylfaenol yn Gymraeg! Rhowch gynnig ar wefannau fel Learn Welsh / Dysgu Cymraeg: https://learnwelsh.cymru.
- Mae cyfoeth o adnoddau ar Youtube – Yr Wyddor, sesiynau Cymraeg i ddysgwyr, cyfarchion, sesiynau Cymraeg gyda Miss O'Hare ac ati. Chwiliwch a mwynhewch!

**I'r rhai sydd â mwy o hyder a/neu fwy o brofiad**

- Gwyliwch 'Pobol y Cwm' (yr opera sebon cyfrwng Cymraeg ar S4C) gyda neu heb isdeitlau Saesneg.
- Ceisiwch wrando ar y newyddion yn Saesneg ac yna yn Gymraeg ar y radio (Radio Cymru) neu deledu (S4C).
- Llawrlwythwch Ap Golwg a chliciwch ar Golwg 360 am fersiwn digidol o'r cylchgrawn.

- Efallai y bydd rhai ohonoch yn dymuno prynu llyfrau ac ati (ar-lein neu drwy'r post) o un o'r siopau canlynol: Caban ym Mhontcanna, Siop y Felin yn yr Eglwys Newydd, Canolfan Soar ym Merthyr, Siop y Bont ym Mhontypridd, Vintage Cant a Mil yn Cathays.
- Gallech ymchwilio i wefan '**Gwales.com**' sef gwefan Cyngor Llyfrau Cymru. Chwiliwch am yr adran 'Plant a Phobl Ifanc' neu unrhyw adran sy'n apelio!

**Siaradwyr mwy rhugl**
Darllen er pleser: fe allech chi fynd ar wefan Gwales.com sef safle gwerthu y Cyngor Llyfrau Cymraeg. Ewch i'r adran 'Fesul categori' ac yna 'Plant a Phobl ifainc' neu gategorïau eraill sydd yn apelio. Mae modd i chi ddarllen adolygiadau o'r nofelau cyn penderfynu eu prynu. Mae hwn yn gyfle da i wella eich adnoddau iaith, a gwella eich gwybodaeth a mwynhau ar yr un pryd!

Llawrlwythwch ap BBC Cymru Fyw er mwyn cael penawdau newyddion a straeon cyfredol yn Gymraeg. Mae'r rhain yn fyr ac yn fachog ac yn help i ddatblygu geirfa gyfredol. Llawrlwythwch **ap Golwg** yna cliciwch ar **Golwg 360** am fersiwn digidol y cylchgrawn.

**Adnoddau Gloywi Iaith ar gyfer siaradwyr mwy rhugl:**
- Llawrlwythwch ap **Sgiliau Iaith Athrawon**. Gwnewch yr ymarferion sawl tro a cheisio gwella eich sgôr bob tro. Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n cael sgôr uchel i ddechrau, mae'r tasgau yn eithaf heriol. Y peth pwysig ydy eich bod yn gwella eich sgôr a'ch bod yn gwneud cynnydd.
- Llawrlwythwch yr **Ap Geiriaduron** a chwiliwch am rai geiriau er mwyn dechrau ymgyfarwyddo â'r ap.
- Llawrlwythwch yr **Ap Treiglo** a dysgwch sut i'w ddefnyddio.
- Dysgwch sut i droi eich cyfrifiadur i fersiwn Cymraeg er mwyn osgoi: 'I' yn lle i' / 'marched' yn lle 'merched' / 'rode' yn lle 'roedd' / 'plenty' yn lle 'plentyn' ac ati ...
- Dysgwch sut i roi to bach ar: ô, Ô, ŷ, Ŷ, ŵ, Ŵ, î, Î, â, Â, ê, Ê, û, Û a dau ddot ar ï, Ï.
- Dysgwch sut i ddefnyddio fersiwn ar-lein **Cysill** neu gallwch ystyried prynu Cysill ar gyfer eich cyfrifiadur. Mae Cysill ar nifer o gyfrifiaduron y brifysgol.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r brifysgol ym mis Medi. Cadwch yn ddiogel.

**Sioned, Kris, Gina, Rhian a'r tîm**
Sioned Dafydd – Uwch Ddarlithydd: SDafydd@cardiffmet.ac.uk
Kris Sobol – Uwch Ddarlithydd: KSobol@cardiffmet.ac.uk
Dr Gina Morgan - Arweinydd Llwybr pwnc Cymraeg a llwybrau cyfrwng Cymraeg
Gmorgan@cardiffmet.ac.uk
Rhian Crooks Williams – Cydlynydd Uwchradd Cymraeg yn y sector cyfrwng Saesneg:
Arweinydd Llwybr TAR Daearyddiaeth: RECrooks-Williams@cardiffmet.ac.uk